Cofnodion Cyfarfod CCG 25.2.21

Cynhaliwyd yn Neuadd Cymuned Glantwymyn ac ar-lein

*19:322: Presennol*: Gareth Wyn Jones, (Cadeirydd), Deryck Williams, Bedwyr Fychan, Rhodri Wigley, Elwyn Vaughan, Aled Griffiths, Paul Hughes, Iwan Jones, Gareth Owen, Sandra Evans (Clerc)

*19:323: Ymddiheuriadau*: William Owen, Huw Williams, Aeron Pughe, Gwenfair Davies,

*19:324: Datganiadau o ddiddordeb*: Dim

19:325: *Cyflwyno a derbyn cofnodion Ionawr 2022* Cynigiwyd bod y cofnodion yn gywir gan Iwan Jones. Fe'i heiliwyd gan Aled Griffiths.

*19:326: Materion yn codi o'r Cofnodion Nodwyd y dylid ychwanegu y byddai'n ofynnol i bawb wneud prawf unffordd covid cyn mynychu cyfarfodydd wyneb yn wyneb.*
*Nodwyd y dylid egluro pwynt bod Dafydd Evans yn gyn cadeirydd ac mai Gareth Wyn Jones yw'r cadeirydd cyfredol.*

*19:327: Trefn Cyfarfodydd*
*Nodwyd y dylai Materion Eraill fod ar gyfer rhannu gwybodaeth yn hytrach na chodi pwyntiau newydd i'w trafod. Mae hwn yn unol ag argymhellion arfer da. Dylid adrodd i'r Cadeirydd neu'r Clerc am unrhyw eitemau i'w gosod ar yr agenda cyn 6.00 nos Sul cyn cyfarfod nos Iau er hwylustod ac er mwyn cyhoeddi'r agenda yn ôl y gofyn Ddydd Llun. Nodwyd y gellir adrodd am faterion priffyrdd noson y cyfarfod pe byddai angen gan fod lle ar yr agenda ar gyfer hynny ond y byddai'n well gysylltu â'r clerc cyn hynny. Byddai hynny'n caniatau cysylltu â'r cyrff priodol a chael gweithredu ganddynt yn gynt.*

*19:327*: *Adroddiad y Clerc*: Eglwysi Llanwrin a Darowen- Mae rhywfaint o ymchwil i ffynonellau ariannol wedi digwydd. Nodwyd bod PAVO wedi bod yn gymorth mawr. Bydd angen amcanbris er mwyn parhau gyda'r ymholiadau. Nodwyd hefyd y bod nifer o noddwyr yn hoffi gweld prosiectau sy'n cynnwys budd i'r gymuned. Awgrymwyd hefyd y gellid cysylltu â'r eglwys i wneud prosiectau ar y cyd. Rydym yn dal i ddisgwyl am ateb gan CADW.

Claddedigaethau - nodwyd bod ymgymerwyr Dinas Mawddwy yn cyflawni hwn dros y Cyngor ar hyn o bryd. Nodwyd bod angen dod o hyd i fap beddau os bydd claddedigaethau'n parhau yn Llanwrin.

Cysylltir â'r Parchedig Miriam Beecrofft i ofyn am gynrychiolydd o'r adran gyllid i ymweld â'r cyngor. Gofynnir hefyd am gyfraniad ariannol gan yr eglwys yn ogystal â gofyn a fyddai'r eglwys yn fodlon ymgymryd â phrosiectau ar y cyd a/neu geisio ar ran y Cyngor i ffynonellau posib y mae gan yr eglwys fynediad iddynt. Nodwyd bod unigolion wedi gadael arian sylweddol i eglwys Llanwrin i'w ddefnyddio i'w chynnal yr eglwys.
O gofio dyletswydd ofal nodwyd y dylid rhoi rybudd o berygl wrth y ddau fynediad ac ystyried gofyn i'r eglwys gau dros dro nes bydd y lle'n ddiogel. Nodwyd bod nifer o gerrig beddau wedi'i hollti gan achosi perygl. Cynhelir trafodaeth am ddyfodol yr eglwysi i drafod y ffordd ymlaen o ran cynnal claddedigaethau claddu yn Llanwrin. Cynigiwyd hyn gan Gareth Owen ac fe'i heiliwyd gan Rhodri Wigley.

*Cyffordd ger Canolfan y Dechnoleg Amgen: (19:330:) Cafwyd cyfarfod buddiol yn y lleoliad i drafod a Rhiw Gwreiddyn, Cwm Ffrydlan lle mae'r ffordd y gollwng rhwng Gareth Wyn Jones, Huw Williams, Gwen Lloyd ac Aled Jones o Gyngor Sir Powys.*

Cynllunio ôl gynllunio Mathafarn 21/0183/AGR Tynnwyd sylw at bwysigrwydd parchu golwg yr amgylchedd wrth greu ffyrdd. Nodwyd bod y Cyngor yn llwyr gefnogi ffermio atgynhyrchiol o ran y diwydiant a'r polisïau.
*19:328: Materion ariannol ac eitemau i'w talu*

- *Cyflog y Clerc £282.20 Ionawr*
- Neuadd Glantwymyn £1,500 (siec yn lle'r un blaenorol – camgymeriad yn yr enw)
- Diweddariad Ariannol - Derbyniwyd y diweddariad gan y Cyngor. Fe'i cynigiwyd gan Aled Griffiths ac fe'i heiliwyd gan Iwan Jones.

Diweddariad Ariannol *CCG a'r Gwynt Chwefror 2022*

| Cyfrif | Rhif y cyfrif | Dyddiad | Balans - datganiad | Sieciau heb eu cyflwyno | Arian a dderbyniwyd | Balans gwirioneddol |
|---|---|---|---|---|---|---|
| CCG current | 80405019 | Chwefror 2022 | 22,039.68 | 101295,10.00<br>101309 228.80<br>101316<br>547.60<br>101317<br>9.12<br>101319<br>95.00<br>101320<br>Swm i'w gadarnhau<br>101321<br>292.40<br>101322<br>82.70<br>101324<br>500.00<br>101325<br>500.00<br>101326<br>500.00<br>101327<br>292.40<br>101328<br>209.80<br>101329<br>1500<br>101300<br>150.43 | | |
| CCG savings | 80405035 | Rhagfyr 2021 | 15,104.13 | 4,196.1<br>Heb gynnwys y swm i'w cadarnhau | (Budd)<br>38c<br>10.12.21 | 17,123.58<br>Minws y swm i'w gadarnhau |
| Gwynt current | 40052604 | Chwefror 2021 | 1,295.01 | | | |
| Gwynt savings | 60849707 | Rhagfyr 2021 | 6,091.43 | | (Budd)15c<br>10.12.21 | |
| Mynwentydd | 40500941 | Rhagfyr 2021 | 1,795.80 | | (Budd)4c<br>10.12.21 | |

19:329: *Cyfarfod Wyneb yn Wyneb* - Nodwyd bod rhaid i gyfarfodydd wyneb yn wyneb yn gorfod bod yn hybrid ar hyn o bryd er mwyn i gynghorwyr neu'r cyhoedd ymuno o bell pe dymunir gwneud. Felly nodwyd y byddai angen cael meicroffôn. Rhoddwyd caniatâd i'w brynu. Cynigiwyd hwn gan Gareth Owen ac fe'i heiliwyd gan Bedwyr Fychan. Diolch i Gareth Owen a Bedwyr Fychan am y cyngor o ran offer priodol.
Nododd y Cadeirydd, Gareth Wyn Jones, y byddai'n dda ganddo weld pawb yn mynychu'r cyfarfodydd wyneb yn wyneb yn y dyfodol.

*19:300: Torri mynwentydd Darowen a Llanwrin* - Gosodir hysbyseb yn y Blewyn Glas am dorrwr gwair mynwentydd Llanwrin a Darowen ar gyfer y flwyddyn nesaf.

*19:301: Diogelwch Cymunedol* Mae SCCH Tessa Williams wedi cysylltu gan gynnig awgrymiadau ar gyfer Cynllun Gwarchod Cymdogaeth. Mae gwefan ar gael sy'n cynnwys adran am Heddlu Dyfed-Powys ar gael yma: Home | Neighbourhood Watch | National network | Local Watch areas | Community crime prevention groups (ourwatch.org.uk). Mae'r Cyngor yn disgwyl rhestr o gynghorion yn y Gymraeg gan Heddlu Dyfed-Powys. Bydd y cynghorion diogelwch yn cael eu rhannu gyda darllenwyr y Blewyn Glas. Anogir pawb i fod yn wyliadwrus a chysylltu gyda'i gilydd gan rannu gwybodaeth am unrhywbeth amheus drwy'r cyfryngau cymdeithasol. Mae camerâu diogelwch ym mhocedi pawb.

*19:302: Pennu Is-gadeirydd Pennwyd Iwan Jones yn Is-gadeirydd. Cafodd ei gynnig gan Dafydd Evans ac fe'i heiliwyd gan Paul Hughes.*

*19:301:1: Adroddiadau'r Cynghorwyr*

*Neuadd Cymuned Glantwymyn- Paul Hughes. Nodwyd mai da yw gweld y neuadd yn dechrau cael ei ddefnyddio eto e.e. gan y Côr a Merched y Wawr. Bydd yr Ysgol Feithrin yn llogi ystafell ychwanegol o ganlyniad i ofynion diogelu yn ystod cyfnod Covid.*

*Ysgol Glantwymyn – Aled Griffiths Cafwyd cyfarfod yn ddiweddar i drafod y fformiwla cyllidi ysgolion, sy wedi bod yn fuddiol iawn i Ysgol Glantwymyn dros y 2-3 o flynyddoedd diwethaf ond mae'n bosib y bydd y Cyngor Sir yn newid y fformiwla cyllid ar gyfer y flwyddyn nesaf*

*Cyngor Sir Powys - Elwyn Vaughan* Cynhelir cyfarfod i bennu cyllid y flwyddyn nesaf yr wythnos nesaf. Mae Ysgol Glantwymyn yn cynnig llefydd digonol ar gyfer plant 3 oed ond megis llawer o lefydd eraill ym Mhowys nid oes digon o le ar gyfer plant dwy flwydd oed. Ar hyn o bryd lle i 16 o blant sydd, gyda'r bwriad i ail-gofrestru gyda'r asiantaeth ofal i gynyddu'r capasiti i 19. Cynhelir cyfarfod pennu cyllid Ddydd Mercher nesaf.

*19:303: Gohebiaeth*: Cafwyd gwahoddiad i fynychu cyfarfod i drafod sefydlu meithrinfa leol. Bydd Aled Griffiths yn cynrychioli'r Cyngor yn y cyfarfod a bydd cynghorwyr eraill hefyd yn mynychu.

*19:304:* Materion *Priffyrdd a Phontydd*
*Adroddir eto nifer o eitemau sydd heb gael eu datrys:*

- *Wyneb y ffordd yng Nghwmlline- safon wael y gwaith a wnaethpwyd yno yn ddiweddar, coeden yng Nghwmlline wedi cael ei dadwreiddio yn peryglu cerddwyr*
- *Arwydd wrth y troad o'r briffordd am Abercegir a Thal-y-wern – wedi cael ei phlygu*
- *Arwydd wrth droi am Lanwrin wrth dop y grofft – eisiau glanhau'r paent a daflwyd drosti*
- *Twll yn y ffordd ger y goedwig yn Narowen*
- *Dwy lamp wrth Neuadd Gymuned Glantwymyn*
- *Baw cŵn yng Nghwmlline'n arbennig o ddrwg*

*Mae eitemau newydd yn cynnwys:*

- *Angen arwyddion arafu ger Brynuchel, Cwmlline - Mae 9 carafan ychwanegol wedi cyrraedd ac mae pryderon am y plant.*
- *Draeniau wedi blocio yng Nghwmlline ger y festri*
- *Draen wedi blocio ger Top y Grofft, Penybont a Phen y Graig gan achosi perygl mawr i draffig – damweiniau mawr wedi bod yma yn y gorffennol o ganlyniad i hyn.*
- *Tipio anghyfreithlon - Aberangell ar y ffordd gefn o Gemaes a layby Mathafarn*
- 
- *7693-9641-7268-3959   7896-6196-4745-311*

*19:305: Unrhyw fater Arall.*

- Mynegwyd pryderon am y ddarpariaeth feddygol yn syrjeri Machynlleth. Mae cleifion yn cael eu cyfeirio at nyrs y practis yn lle meddyg ac mae llu o broblemau e.e. rhaid aros yn hir wrth godi presgripsiwn. Anogir aelodau'r cyhoeddd i ddatgan eu pryderon yn uniongyrchol i concerns.qualityandsafety.POW@Wales.nhs.uk a kate.blackburn@wales.nhs.uk Gall y cyrff hyn weithredu ar ran aelodau'r cyhoeddd. Sylwch nad oes modd gwneud cwyn drwy Fwrdd Iechyd Addysgu Powys os ydy'r cwyn eisoes wedi cael ei gyflwyno eisoes i Iechyd Bro Ddyfi, felly dylid osgoi codi materion yn uniongyrchol â'r feddygfa neu bydd dim ffordd ymlaen drwy'r sianelau uchod.
- Ar yr 20fed o Fawrth cynhelir cyfarfod yn eglwys Darowen i drafod dyfodol yr eglwys. Bydd yr Archddiacon yn bresennol.
- Mynegwyd pryderon dilys a chymwys ynghlŷn â gweithgarwch yr Ymddiriedolaeth Natur wrth gyflwyno afancod i Ddyffryn Dyfi. Tynnwyd sylw at y difrod a wnaed i isadeiledd ffyrdd a phriffyrdd ac yn lledaenu i afonydd bach. Mae NfU Cymru'n ymchwilio i weld a oes gan y rhai sy'n eu gollwng drwyddedi. Gwahoddir aelod o Gyfoeth Naturiol Cymru i ymweld â'r Cyngor.

Daeth y cyfarfod i ben am 10.10
Cynhelir y cyfarfod nesaf Nos Iau 31.3.22